OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 107 (Cy.12)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *22 Ionawr 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Chwefror 2002* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 18 Chwefror 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2000

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2000(**3**) yn unol â'r darpariaethau canlynol yn y Rheoliadau hyn.

**3.** Ar ddiwedd rheoliad 3 ychwanegir y paragraff canlynol—

> "(6) Mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol 2001 — 2002 cymerir y cyfeiriad ym mharagraff (2) at 380 o sesiynau fel cyfeiriad at 378 o sesiynau."

**4.** Ychwanegir y rheoliad canlynol ar ôl rheoliad 4—

> "**5.**—(1) Pan fydd sesiwn ysgol yn y flwyddyn ysgol 2002—2003 wedi'i neilltuo'n llwyr neu yn bennaf i ddarparu hyfforddiant y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ar gyfer athrawon a gyflogir yn yr ysgol honno, ymdrinnir â'r sesiwn honno at ddibenion rheoliad 3 fel pe bai'n sesiwn pan gyfarfu'r ysgol.

(**1**) 1996 p.56; mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Mae adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio "regulations" i olygu rheoliadau sy'n cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2000/1323 (Cy.101).

(2) Ni chaiff paragraff (1) effaith mewn perthynas â mwy na dwy sesiwn ysgol.

(3) Mae paragraff (1) yn gymwys i hyfforddiant sy'n ymwneud ag addysgu disgyblion yn yr ysgol sydd yn yr ail gyfnod allweddol neu'r trydydd cyfnod allweddol."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

22 Ionawr 2002 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2000 ("Rheoliadau 2000"). Mae Rheoliadau 2000 yn gwneud darpariaethau ynghylch hyd y diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol ac ymhellach yn gwneud darpariaeth am nifer y sesiynau ysgol y gellir eu neilltuo i hyfforddi athrawon mewn gwerthuso athrawon ysgol, system dâl athrawon ysgol a strwythurau staffio ysgol.

Diwygir Rheoliad 3 o Reoliadau 2000 er mwyn lleihau hyd y flwyddyn ysgol 2001—2002 gan un diwrnod, o 380 o sesiynau i 378 o sesiynau, ar gyfer ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol ac ysgolion arbennig nad ydynt yn cael eu cynnal felly. Bydd y rheoliad hwnnw'n caniatáu i'r ysgolion hynny gymryd diwrnod ychwanegol o wyliau yn ystod blwyddyn ysgol 2001—2002 mewn perthynas â gŵ yl banc jiwbili aur y Frenhines sy'n digwydd yn ystod wythnos gwyliau hanner tymor, ddydd Llun 3 Mehefin 2002.

Ychwanegir rheoliad 5 newydd i Reoliadau 2000 sydd yn ymestyn y mwyafrif o sesiynau y gellir eu neilltuo yn llwyr neu yn bennaf ar gyfer hyfforddi gan ddwy sesiwn yn y flwyddyn ysgol 2002—2003 ar gyfer hyfforddi sydd yn ymwneud ag addysgu plant yn yr ail a'r trydydd cyfnod allweddol.